north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**DYDDIAD: 14 Mai 2021**

**Teitl:** *Diweddariad Bysiau Rhanbarthol*

**Awdur:** Iwan Prys Jones – Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

Rhoi cyflwyniad a diweddariad i Aelodau ar gynnydd Trafnidiaeth Cymru ar waith sy'n cael ei wneud ar Adolygiad Rhwydwaith Bws Cenedlaethol Cymru. Bydd y cyflwyniad hefyd yn tynnu sylw at sut mae hyn yn cefnogi gwaith ar y Cynllun Argyfwng Bws yng Nghymru

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r diweddariad a'r cynigion ar gyfer y gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio.

Mae gwaith pellach wedi'i gynllunio i ddatblygu cynllun gweithredol ar gyfer cyflawni'r weledigaeth arfaethedig ar gyfer y rhwydwaith, bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i swyddogaeth yr Is-fwrdd Cyflawni mewn perthynas â'r gwaith parhaus.

3. **Rhesymau dros y Penderfyniad**

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn bennaf, i gynghori'r aelodau ar y cynnydd a wnaed gyda'r Adolygiad Rhwydwaith, y canfyddiadau a'r deilliannau cychwynnol, a'r camau nesaf arfaethedig

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen ystyriaeth bellach i rai o'r cynigion newydd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun ymhen amser.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

Mae'r aelodau wedi derbyn adroddiadau mewn cyfarfodydd diweddar ynghylch y newidiadau arfaethedig i reolaeth a chyllid y rhwydwaith bysiau, yn bennaf yn ymwneud ag effeithiau'r gostyngiad mewn defnydd o fysiau o ganlyniad i bandemig Covid-19.

Fe gofia'r aelodau hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi dymuno gallu bod mewn gwell rheolaeth dros ansawdd y rhwydweithiau bysiau a'r ddarpariaeth gwasanaeth ers tro. Mae Llywodraeth Cymru, gan weithio drwy Trafnidiaeth Cymru, wedi cynnal adolygiad arwyddocaol o rwydweithiau a threfniadau rheoli presennol gyda gwaith manwl yn cael ei wneud gan Arup ac Atkins. Cynhaliwyd trafodaethau manwl gydag awdurdodau lleol drwy ATCO

Bydd aelodau'n cael cyflwyniad ar y gwaith a wnaed hyd yma a'r cynigion sydd ar y gorwel. Bydd y cyflwyniad hefyd yn ystyried y camau nesaf sydd wedi'u cynllunio a'r amserlen ar gyfer gwaith pellach a datblygiad cynllun gweithredu a phrosiectau cyflawni peilot posib.

**5. Ystyriaethau**

Bydd gan y cynigion am drefniadau rheoli mwy effeithiol effeithiau ar lywodraethu a rheoli rhwydweithiau bysiau yn y Gogledd. Er bod peth cydlynu rhanbarthol o gynlluniau ariannu bysiau, gyda Sir y Fflint yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol, mae pob awdurdod lleol yn caffael gwasanaethau bysiau yn annibynnol ar hyn o bryd.

Bydd cyflwyno'r cynigion rhwydwaith arfaethedig yn cynnwys newidiadau i drefniadau llywodraethu presennol mewn perthynas â chyllido a chaffael gwasanaethau bws.

**5. Goblygiadau Ariannol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol penodol o’r adroddiad hwn; gwybodaeth am waith sydd wedi cael ei wneud i ystyried cynigion i wella'r rhwydweithiau bws yng Nghymru ydyw yn bennaf.

Mae'n ddigon posib y bydd effeithiau'r cynigion hyn, wedi iddynt gael eu mabwysiadu, yn cael effeithiau ariannol arwyddocaol; fodd bynnag, tynnir sylw at y rhain mewn adroddiadau diweddaru yn y dyfodol neu yn ystod yr ymgynghoriad y dylid ei gynnal cyn gweithredu.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o'r adroddiad hwn. Bydd angen ystyried trefniadau rheoli a llywodraethu ar gyfer cyflawni'r cynllun BES 2.

**7. Goblygiadau Staffio**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'n debygol y gall unrhyw ddulliau cytûn i reoli cyllid neu rwydweithiau bysiau ar sail ranbarthol gael goblygiadau ar staffio o fewn timau bysiau presennol.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn – mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro – corff atebol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**ii. Pennaeth Cyllid – corff atebol:**

Nodaf y posibilrwydd o effaith ariannol sylweddol wrth fabwysiadu'r cynigion, a bydd angen sicrhau cadarnhad o'r ffynonellau ariannu (pe bai angen cyfraniadau ychwanegol gan unrhyw bartneriaid) cyn ystyried penderfyniad terfynol ar y ffordd ymlaen mewn cyfarfodydd dilynol.